

GUIDE
DOGS



Cymru

Modiwl 1

Pwy fyddwn i pe na allwn weld?



Deilliannau dysgu:

- Dynodwch wahanol fathau o gyflyrau'r llygad
- Disgrifiwch y math o golli golwg sy'n gysylltiedig â gwahanol gyflyrau'r llygad
- Dadansoddwch ragdybiaethau a dyfarniadau pobl sydd â nam ar eu golwg ac ystyriwch o le y daw'r stereoteip
- Trafodwch sut beth fyddai'ch bywyd â math penodol o nam ar eich golwg
- Ystyriwch sut mae tasgau dyddiol yn cael eu perfformio heb olwg
- Gwerthuswch yr effaith y byddai colli golwg yn ei gael ar fywyd beunyddiol person ifanc a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol

Sut beth yw bod yn ddall neu'n rhannol ddall?

Dolenni Cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, ABGI, Dealltwriaeth bersonol a Chyd-ddealltwriaeth, Iechyd a Lles

Clywed yn uniongyrchol, straeon am sut beth yw colli'ch golwg neu fyw â nam ar eich golwg. Gallai fod modd i chi wahodd siaradwr Cŵn Tywys i ddod i'ch ysgol. Cysylltwch â speakers@guidedogs.org.uk am ragor o wybodaeth ac i gael gafael ar siaradwr.

Gweithgaredd

Diffiniwch y term 'dall'

Trafodwch y term 'dallineb' – gallai hyn gael ei wneud fel gweithgaredd sy'n cael ei arwain gan athro neu'n rhannol felly.

Cwestiynau allweddol - beth yw'n dealltwriaeth o'r term 'dall,' sut mae'n gwahaniaethu â 'nam ar y golwg,' a all person sy'n ddall weld unrhyw beth? Beth mae 'cael eich cofrestru'n ddall' yn ei olygu?

Y diffiniad cyfreithiol ar gyfer dallineb neu nam difrifol ar y golwg yw pan fydd 'person mor ddall na fydd yn gallu gwneud unrhyw waith y mae ei olwg yn angenrheidiol ar ei gyfer.' Mae nam ar y golwg yn broblem gyda'ch golwg na ellir ei wella â sbectol/technegau laser.

Oes gan unrhyw un yn y dosbarth brofiad o faterion sy'n ymwneud â'r golwg?

Mae yna lawer o broblemau y gall pobl eu cael â'u golygon. Nid oes gan bawb olwg perffaith; gall rhai fod â golwg byr, golwg hir neu ddioddef o stigmatism. Mae golygon pawb yn newid a gall ddirywio dros amser sef pam fod pobl hŷn yn dueddol o angen sbectol wrth iddynt dyfu'n hŷn.

Gall colli golwg mwy difrifol fod yn enetig, o ganlyniad i glefyd neu yn sgil damwain. Mae pob cyflwr yn effeithio'n wahanol ar y golwg ac mae'n bwysig nodi nad yw pawb sy'n 'ddall' yn methu gweld dim o gwbl. Mae gan nifer o berchnogion cŵn tywys olwg gweddilliol neu efallai eu bod nhw'n gallu gweld golau/tywyllwch/cysgodion neu weld gydag un llygad. Mae pawb yn wahanol.

Gweithgaredd

Rhyngweithio ar fwrdd gwyn

Gweithgaredd y simspecs

Mae'r gweithgaredd rhyngweithiol hwn yn galluogi'r disgyblion weld yr effaith y mae gwahanol gyflyrau ar y llygad yn eu cael ar olwg drwy ddangos yr effeithiau ar lun.

Cliciwch ar bob cyflwr llygad er mwyn dangos eu heffeithiau. Gallwch newid y llun drwy glicio ar y saethau a difrifoldeb cyflwr y llygad drwy ddefnyddio'r llithrydd ar waelod y llun.

Mae gennych hefyd yr opsiwn i lan-lwytho eich llun eich hun yma ac ychwanegu hidlyddion cyflyrau'r llygad ato.

Gofynnwch i aelodau'r dosbarth ddefnyddio'r bwrdd, dewis llun, cyflwr llygad ac addasu ei ddifrifoldeb.

Gweithgaredd Opsiwn 1

Tasg dysgu annibynnol/gwaith pâr/grŵp

Dynodwch anhwylder llygad i bob grŵp ymchwilio iddo.

- Beth sy'n achosi'r cyflwr?
- Sut mae'n effeithio ar y golwg?
- A yw'n gwaethygu dros amser?

Gan ddefnyddio'r 'opsiwn lan-lwythwch eich llun eich hun,' gall disgyblion dynnu lluniau o'u bywydau beunyddiol e.e. bwyta bwyd, eu ffrindiau/teulu, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded ar hyd y stryd, mynd i'r ysgol.

Unwaith bydd y ddelwedd yn cael ei ddangos ac y bydd cyflwr llygad yn cael ei ddewis, gall disgyblion ddefnyddio'r opsiwn argraffu'r sgrin er mwyn ei gopiïo a'i bastio i gyflwyniad powerpoint er mwyn dangos sut beth fyddai bywyd â'r cyflwr llygad gan roi adborth i weddill y dosbarth.

Gweithgaredd Opsiwn 2

Tasg ysgrifenedig

'Disgrifiwch ddiwrnod ym mywyd person sy'n byw gyda (dynodwch anhwylder.)'

Dylai'r cyflwyniad hefyd ystyried yr hyn y byddent yn ei ffeindio'n anodd petai'r cyflwr arnynt, sut y byddai'n effeithio arnynt yn mynd o le i le, a fyddai angen cymorth arnynt yn eu bywydau bob dydd.

Gweithgaredd

Trafodaeth

A fyddai'n well gennych gael eich geni'n ddall neu goll'i'ch golwg? Mae'n ofynnol i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau meddwl yn feirniadol ar gyfer y drafodaeth hon.

- Sut beth fyddai bywyd pe na fyddech chi erioed wedi gallu gweld?
- Sut fyddech yn dirnad y byd? Byddai bod yn ddall yn normal.
- Sut fyddech yn gwybod beth fyddai eitemau bob dydd/sut olwg sydd arnynt?

Byddai colli golwg yn golygu y gallech ddeall y byd mewn termau gweledol ond gall colli golwg fod yn ddigalon a thrist. Sut effaith fyddai hynny'n ei gael ar berson? Sut fyddai'n dirnad y byd yn ystod ac wedi iddo goll'i ei olwg?

Sut beth fyddai colli'ch annibyniaeth?